# Canllaw ar Ddefnyddio Dyfeisiau Arbed Ocsigen Drive Evolution




baywater HEALTHCARE

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys


Dod i Adnabod Rhannau o'ch Dyfais Arbed Ocsigen **3**

Sut i Gysylltu Dyfais Arbed Ocsigen **4**

Gosod eich Cyflenwad Ocsigen **5**

Diffodd y Cyflenwad Ocsigen **6**

Gwirio Pŵer Batri eich Dyfais Arbed Ocsigen **6**

Newid y Batris **7**

Am ba hyd y mae Silindrau yn para wrth ddefnyddio Dyfais Arbed Ocsigen **8**

Datrys Problemau **9**






ENHANCING LIVES

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Dyfais Arbed Ocsigen




**A** Cysylltiad y pigynnau trwynol
**B** Deial dethol (Pwls neu Lif Parhaus)
**C** Botwm dewis gosodiad
**D** Arddangosydd gosodiad
**E** Golau batri isel
**F** Cysylltiad y silindr

# Sut i Gysylltu Dyfais Arbed Ocsigen




Rhowch y silindr yn y bag a ddarperir




Rhowch y ddyfais arbed ocsigen ym mhoced y bag, gan sicrhau bod y strapiau felcro wedi cau




Cysylltwch y tiwbiau torchog â'r cysylltydd ar y silindr




Defnyddiwch y clamp i ddiogelu'r cysylltiad




Cysylltwch ben y tiwb torchog â chysylltiad y silindr ar y ddyfais atal ocsigen




Cysylltwch diwb y pigynnau trwynol â'r cysylltiad ar ochr y ddyfais atal ocsigen

**Rhybudd**

Peidiwch â defnyddio dyfais arbed ocsigen pan fyddwch chi'n cysgu.

Dim ond wrth wisgo pigynnau trwynol y dylech chi ddefnyddio dyfais arbed ocsigen Nid yw dyfeisiau arbed ocsigen yn gweithio gyda masgiau.

# Gosod eich Cyflenwad Ocsigen




Rhowch y pigynnau trwynol yn eich trwyn




Trowch y falf ar ochr y silindr i ‘on/+’, os yw’n bresennol




Trowch y silindr ocsigen ar gyfradd llif o 4 litr y funud (lpm)




Gwnewch yn siŵr bod y deial dethol wedi’i osod ar ‘Pulse’




Pwyswch y botwm ‘dewis gosodiad’ i lawr nes bod eich gosodiad yn goleuo




Dechreuwch anadlu drwy’r pigynnau trwynol

**Rhybudd**

Cofiwch fod yn rhaid gosod y silindr ar gyfradd llif o 4 lpm, a bod y ddyfais arbed ocsigen wedi’i gosod ar y gosodiad cywir.

# Diffodd y Cyflenwad Ocsigen

1. Trowch y falf 'On/Off' yn glocwedd yn araf ar y silindr, nes ei fod ar y gosodiad 'Off'
2. Trowch y deial i'r gosodiad 'CF' (Llif Cyson) i ryddhau unrhyw wasgedd yn y tiwbiau
3. Tynnwch y pigynnau trwynol o'ch trwyn

**Rhybudd**
Does dim botwm 'on/off' ar y ddyfais arbed ocsigen. Bydd y ddyfais arbed ocsigen yn troi ymlaen pan fydd yn synhwyro anadl, a bydd yn mynd i'r 'modd cysgu' ar ôl tri munud os nad yw'n cael ei defnyddio.

Os yw'r silindr yn cael ei ddefnyddio heb y ddyfais, cofiwch ei osod yn ôl i'r gyfradd llif gywir bob amser.

# Gwirio Pŵer Batri eich Dyfais Arbed Ocsigen

Os bydd y batri'n isel, bydd y 'dangosydd batri isel' yn fflachio'n goch.




Sicrhewch fod gennych chi fatris sbâr bob amser. Os yw pŵer y batri yn isel, ystyriwch newid y batris cyn gadael eich cartref. Bydd batris yn cael eu darparu gyda'r ddyfais arbed ocsigen, eich cyfrifoldeb chi fydd eu newid nhw.

# Newid y Batris

Mae'r ddyfais arbed ocsigen angen dau fatri alcalïaidd AA.

I newid y batri, dilynwch y camau canlynol:

1. Tynnwch y sgriw sy'n dal drws y batri ar gau (os yw'n bresennol)
2. Agorwch y gorchudd batri
3. Tynnwch y batris allan yn ddiogel
4. Rhowch fatris newydd i mewn, gan wneud yn siŵr eu bod yn wynebu'r symbolau +/- cywir
5. Ar ôl i chi newid y batris, caewch y gorchudd a'i wasgu nes eich bod chi'n clywed sŵn clic
6. Rhowch y sgriw yn ôl (os yw'n bresennol)

**Mae'n bosibl nad oes sgriw yn bresennol. Yn yr achos hwn, dylech chi hepgor camau 1 a 6.**

**Rhybudd**
Defnyddiwch fatris alcalïaidd yn unig mewn dyfais arbed ocsigen.

Sylwch: Mae eich dyfais arbed ocsigen yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG.

# Am ba hyd y mae Silindrau yn para wrth ddefnyddio Dyfais Arbed Ocsigen

## Am ba hyd y mae silindr Freedom® 400 yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Yn fras, am ba hyd y mae'r silindr yn para wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen |
|---|---|
| 1 | 32 awr 11 munud |
| 2 | 17 awr 42 munud |
| 3 | 12 awr 12 munud |
| 4 | 9 awr 34 munud |
| 5 | 7 awr 41 munud |
| 6 | 6 awr 26 munud |
| 7 | 5 awr 26 munud |

## Am ba hyd y mae silindr Freedom® 300 yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Yn fras, am ba hyd y mae'r silindr yn para wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen |
|---|---|
| 1 | 23 awr 6 munud |
| 2 | 12 awr 42 munud |
| 3 | 8 awr 45 munud |
| 4 | 6 awr 52 munud |
| 5 | 5 awr 31 munud |
| 6 | 4 awr 37 munud |
| 7 | 3 awr 54 munud |

Wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen, gall hyd oes y silindrau amrywio yn dibynnu ar weithgarwch a chyfradd anadlu'r claf.

# Datrys problemau

## Nid yw'r uned yn pylsio

| Achos posibl | Datrysiad |
|---|---|
| Dim pŵer yn y batris | Newid y batris |
| Batris wedi'u gosod y ffordd anghywir | Gwneud yn siŵr bod y batris yn wynebu'r ffordd gywir |
| Silindr wedi'i ddiffodd | Troi'r silindr ymlaen |
| Silindr yn wag | Gwirio'r silindr a'i newid os oes angen |
| Pigynnau trwynol wedi blocio neu blygu | Cael gwared ar blygiadau, glanhau neu newid y pigynnau trwynol |
| Tiwb ocsigen wedi blocio neu blygu | Cael gwared ar blygiadau, glanhau neu newid y pigynnau trwynol |
| Pigynnau trwynol neu diwbiau heb eu gosod yn gywir | Gwneud yn siŵr bod y pigynnau trwynol a'r tiwb ocsigen wedi'u cysylltu â'r ochrau cywir |
| Mae angen ailosod yr uned | Tynnu'r batris, ac aros deg eiliad cyn eu rhoi yn ôl i mewn |

## Oes y batris yn fyr

| Achos posibl | Datrysiad |
|---|---|
| Wedi defnyddio batris heb alcalin | Defnyddio batris alcalïaidd |
| Batris yn ddiffygiol | Newid y batris |

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Nodiadau

# Nodiadau

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk

@BaywaterHealth

Baywater Healthcare

Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

24/736/UK-AUG24 v1